

Mehffin


- 2 Parch Alwyn Roberts
9 Parch Stanley Lewis
14 Te Bethlehem
16 Bugail
Cymun yn oedfa'r bore
23 Miss Beti Griffiths
Bugail (Unedig yn y Garn)
30 Oedfaon i'w trefnu

Cynhelir yr oedfaon am 10 a 5 o'r gloch.

Ysgol Sul y plant a'r ieuencid am 10 o'r gloch.

Ysgol Sul i oedolion ym Methlehem, Llandre am 2 o'r gloch.

Yn dilyn oedfa'r bore, mae gwahoddiad cynnes i bawb gymdeithasu dros gwpanaid o de neu goffi – a chodi arian at gronfa'r adeiladau yr un pryd.



Dymuna Eric Harries ddiolch yn gynnes i aelodau'r Garn a'r Ysgol Sul am roddion hael o nwyddau a chyfraniadau ariannol ar gyfer taith arall i Bosnia ym mis Mawrth.

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 9 Mehefin i:

Mr Dewi G Hughes

Bod Hywel
(828026)




Mrs Marian B Hughes

14 Maes y Garn
(828662)



GAIR O'R GARN

**Cylchlythyr
Eglwys y
Garn,
Bow Street**



**Rhif 5
Gwanwyn
2002**

Duw cariad yw

Gweinidog

Parch R W Jones

Haddef

6 Maes Afallen

Bow Street



(01970 828006)

Ysgrifennydd

Mr Eddie Jenkins

Eryl

Llandre

Bow Street

(01970 828147)



Gair gan y Gweinidog

Rydym yn wynebu:

Tymor y Gwanwyn: tymor blagur a blodau, tymor wŷn bach a nythu, tymor ail-fywhau.

Tymor y Pasg: tymor “cododd Crist o’i fedd yn fyw”, tymor y sicrwydd fod da yn drech na drwg, fod bywyd yn drech na bedd, fod cariad Duw yn gryfach na chreulondeb dynion.

Tymor y Pentecost: tymor “y Gwynt sy’n chwythu lle y mynno”, tymor y tafodau tân, tymor cofio Ysbryd Duw yn ail-greu a deffro, tymor yr Egni Dwyfol.

Yn yr holl weithgareddau a restrir, boed i ni, fel Eglwys, ddathlu a chlodfori Arglwydd bywyd, yr hwn sydd drwy ei nerth yn ail-fywhau ein daear, drwy atgyfodiad Crist yn agor drws y bedd a thrwy ei Ysbryd yn ysbrydoli a bendithio’n taith ddaearol.

Ebrill

- 3 Cymdeithas y Chwiorydd
Cyfarfod Blynyddol am 2.30 o’r gloch
Gŵr gwadd am 3 o’r gloch
Mr Elfryd Evans, Cyngor yr Henoed
- 7 Parch O T Evans
- 13 Henaduriaeth Gogledd Aberteifi
Pwyllgor Cenhadol y Chwiorydd
Cyfarfod Blynyddol yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth am 2.30 o’r gloch
- 14 Parch Wiliam T E Owen
- 21 Bugail
Gwasanaeth teuluol yn oedfa’r bore:
‘Bywyd newydd’
Cymun yn oedfa’r hwyr
- 28 Parch Gareth Watts

Yng nghyfnod y Groglith, y Pasg a’r Pentecost, cofiwn y geiriau yn Efengyl Ioan:

Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy’n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.

Ioan 3:16

Mai

- 3 Noson Goffi am 7.30 p.m. Gwraig wadd:
Mrs Beryl Vaughan, Llanerfyl –
‘Teithiau i Taiwan a Zambia’
Casgliad at Blant y Stryd yng ngogledd India
Stondin Gardd a Chegin
- 5 Parch Gareth Alban
- 10 Pwyllgor yr Ofalaeth
- 12 Miss Hilda Harries
- 17–19 Dathlu 250 mlwyddiant sefydlu Coleg Trefeca, yn cynnwys Sioe Gerdd a luniwyd gan Aled Lewis Evans
- 19 *Pentecost*
Richard Llwyd Jones
(Noddfa yn ymuno yn y Garn yn y bore)
- 24 Pwyllgor Blaenoriaid
- 26 Parch Owen Williams
Bugail (Oedfa gymun ym Methlehem, Llandre yn yr hwyr)